The Ulrike Michal Foundation for the Arts




**11.01.2022**

**Ding Dong, Rownd 2**

**Galwad am Geisiadau am Grantiau Craidd gan Sedfydliad Celfyddydau Ulrike Michal**

Hoffai Ymddiriedolwyr Sefydliad Celfyddydau Ulrike Michal gyhoeddi bod ail rownd eu ceisiadau am grantiau craidd ar agor.

Gall y Sefydliad gynnig:

- Tri grant o hyd at £500, tri grant am rhwng £501 a £1,000 a thri grant am rhwng £1,001 a £3,000 am brosiectau celfyddyd sy'n

"hyrwyddo, annog ac ymestyn y cariad at, gwerthfawrogiad, mwynhad, dealltwriaeth ac arfer celfyddydau cain, addurnol a chymhwysol ymyysg pobl o bob oed trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celf, eiddo hanesyddol ac yn y gymuned yn gyffredinol, fel unigolion ac yn gymunedol, fel cyfrnaogwyr a gwylwyr."

Yn y rownd gyllido gyntaf, roedd y sefydliad wedi gallu estyn cefnogaeth i weithdai celf, arddangosfeydd celf, cadwraeth gweithiau celf, preswylfeydd, yn ogystal â phrosiectau yn ffocysu ar glai, gwehyddu a chrefftau eraill, yn ymwneud ag artistiaid unigol, grwpiau cymunedol, ysgolion, amgueddfeydd lleol a chenedlaethol, ac orielau celf. Fe roddir ystyriaeth i unrhyw brosiect celfyddyd gain neu addurnol sy'n cwrdd ag amcanion cyffredinol y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolwyr yn croesawu'n arbennig ceisiadau sy'n trysori, dathlu ac yn rhannu sgiliau traddodiadol y celfyddydau cain ac addurnol.

Mae manylion llawn y cynllun grant craidd a meini prawf cymhwyster i'w cael ar wefan y sefydliad.




Mae'r Sefydliad yn croesawu ceisiadau am brosiectau a fydd o fudd i gymunedau ledled gogledd Cymru, Glannau Merswy a siroedd y gororau, sef Swydd Gaer, Swydd Amwythig a Swydd Henffordd.

Y dyddiad a'r amser cau ar gyfer pob cais am grant craidd ydy Mawrth 20fed 2022, 5 y.p.

Mae Ymddiriedolwyr y Sefydliad yn cadw'r hawl i newid nifer y grantiau craidd, yn dibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwh â: info@umffta.org**

**Gwefan: www.umffta.org**